# Crynodeb o Reolau Rhodd Cymorth y DU

1. Mae Rhodd Cymorth yn caniatau i'r Ŵyl i hawlio 25c am bob £1 a roddir heb unrhyw gost ychwanegol i chi.

2. Er mwyn i'r Ŵyl allu elwa o'ch rhodd chi, mae'n rhaid i chi fod yn dreth-dalwr yn y DU ac fe ddylech fod wedi talu, neu eich bod yn disgwyl talu, treth o leia'n gyfartal â'r swm i'w adennill yn y flwyddyn y caiff y rhodd ei rhoi.

3. Mae'r dreth a dalwyd yn cynnwys Treth Incwm, Treth Enillion Cyfalaf, treth a dalwyd o dan y cynllun PAYE a threth a gasglwyd drwy log banc. Nid yw trethi eraill, megis TAW a Threth y Cyngor yn berthnasol.

4. Mae Rhodd Cymorth yn gymorth trosiannol i'r elusen berthnasol ac nid yw yn effeithio ar eich sefyllfa treth bersonol.

5. Os ydych yn talu treth ar raddfa uwch, bydd yr Ŵyl yn hawlio treth ar y raddfa sylfaenol yn unig. Gallwch hawlio cymorth ychwanegol drwy gynnwys eich rhoddion yn eich ffurflen dreth.

6. Os ydych am i'r Ŵyl i elwa o'r Rhodd Cymorth, bydd rhaid i chi wneud datganiad syml yn nodi eich bod yn dreth-dalwr yn y DU a'ch bod chi wedi talu, neu yn disgwyl talu, treth o leia'n gyfartal â'r swm o dreth i'w hawlio. Mae angen i'r datganiad gynnwys eich enw a'ch cyfeiriad llawn ac fe ddylai ddangos p'un ai rhodd unigol neu rhodd yn ystod y bedair mlynedd ddiwethaf neu rhodd i'r dyfodol yw hi.

7. Gellir dod o hyd i ffurflen ddatganiad ar-lein yr Ŵyl ar https://www.fishguardmusicfestival.com/gift-aid-form neu drwy y dolenni ar dudalen "Cyswllt" y wefan hon. Rhoddion o'r gorffennol (o Ionawr 1af, 2019) a rhoddion i'r dyfodol a ddangosir yma. Os hoffech gyflwyno datganiad ar gyfer cyfnod gwahanol neu ar gyfer cyfres o roddion penodol, a fyddech mor garedig â ffonio (07941 510889), neu e-bostio contact@fishguardmusicfestival.com neu drwy lythyr i Swyddfa'r Ŵyl, 71 Y Stryd Fawr, Abergwaun. SA65 9AW.

8. Gallwch ddileu'r datganiad ar unrhyw adeg. Os gwnewch chi hyn o fewn 30 niwrnod o'i gyflwyno, ni fydd yr Ŵyl yn hawlio unrhyw dreth. Os gwnewch chi ddileu ar ôl 30 niwrnod, byddwn yn hawlio treth ar y rhoddion a wnaethpwyd ond nid ar unrhyw roddion yn y dyfodol.

9. Bydd rhaid i chi gysylltu â'r Wyl ynglŷn ag unrhyw newidiadau yn eich manylion personol, os na fyddwch yn talu treth yn y DU neu os fydd y dreth y byddwch yn ei thalu, neu yn disgwyl ei thalu, yn cwympo i'r hyn a hawliwyd mewn unrhyw flwyddyn dreth.

10. Os bydd y swm o dreth a dalwch, neu y disgwyliwch ei thalu, yn syrthio yn is na'r swm i'w hawlio mewn unrhyw flwyddyn dreth ac nad ydych wedi ei ddileu, gall HMRC ofyn i chi i dalu'r gwahaniaeth.